

# Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor ar nos Iau 23ain o Fai 2018 yn Eglwys St Pedr Penrhosgarnedd am 7pm.

## Cyfarfod Blynyddol

### Agenda

Gweddi a gair o groeso

Cod Ymddygiad

Ymddiheuriadau

Derbyn Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Mai 10fed 2018

Derbyn Mantolen Ariannol am y flwyddyn 2018/2019

Adroddiad y Cadeirydd

Cadarnhau/Ethol Swyddogion:

Cadeirydd

Is Gadeirydd

Ethol Cynrychiolwyr ar yr Is Bwyllgor

**Dilynir yn syth gan gyfarfod Mis Mai o'r Cyngor.**

# CYNGOR CYMUNED PENTIR

## CYFARFOD BLYNYDDOL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIUYD AR YR 10/05/2018

### Presennol:

Cyng Cynrig E. Hughes (Cadeirydd)

Cyng Dewi Jones, James Griffiths, Jean Pierce, Richard Jones, Lowri James, Bernard Jones, a Menna Baines

Elwyn Jones (Clerc)

### Ymddiheuriadau:

Cyng Dafydd Jones Morris, Tudur Anwyl a Huw Griffiths

Traddodwyd Gweddi gan y Cadeirydd Cyng C. E. Hughes

Yn ei sylwadau agoriadol dymunwyd gwellhad buan i'r Cyng D Jones-Morris yn dilyn ei lawdriniaeth ynghyd a'n siom i golli un o hoelion wyth y Cyngor Cyng Richard Gwynedd Roberts yn sgil ei ymddiswyddiad fel Cyngorydd cymuned dros ward Glasinfryn ar ol nifer helaeth o flynyddoedd. Dymunwyd hir oes a iechyd iddo.

### 1. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol gynhaliwyd 12eg o Fai 2016 a materion yn codi.

#### 1.1 – Derbyd Cofnodion

Ar gynnig Cyng D W Jones gafodd ei eilio gan Cyng T Pierce derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

#### 1.2 – Materion yn codi o'r cofnodion

*Ymddiriedolwyr y Fynwent* – Yn dilyn Etholiad Mai 2017 nid oedd neb wedi eu enwi yn ymddiriedolwyr y fynwent i ddilyn Catrin E Williams ag Anwen Thomas.

Cynnigwyd Cyng C E Hughes gan Cyng B Jones a chafodd ei eilio gan Cyng J Pierce

Cynnigwyd Cyng L A James gan Cyng D W Jones a cafodd ei eilio gan Cyng J Griffiths

Derbyniodd y ddau eu swyddogaeth

### 2. Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol 2017-18

Derbyniwyd cyfrifon am y flwyddyn 2017-18 ynghyd a'r adroddiad ariannol. Yn dilyn ymddeoliad J D Roberts fel Archwyliwr Mewnol Cyngor Gwynedd bellach fyddai'n ymgymeryd a'r dasg honno ar ein rhan.

'Roedd popeth bellach yn barod i'w cyflwyno i'r archwiliwyr mewnol.

### 3. Adroddiad y Cadeirydd

Diolchodd y Cadeirydd am y croeso oedd wedi ei dderbynwrth ddychwelyd yn ol i'r Cyngor

'Roedd yn falch o weld bod newidiadau positif wedi ei wneud i weinyddiaeth y Cyngor yn enwedig yn y meysydd – sgrwtineiddio cyllidol – y drefn i drafod ceisiadau am gyllid – y brwdfrydedd i wella darpariaeth ar gyfer yr etholwyr

- Mae'r flwyddyn wedi gweld hysbysfyrddau a chysgodfannau bws yn cael ei codi
- Cynhaliath ariannol i fudiadau yn enwedig Clwb Peldroed Ieuenctid Penrhos

- Y Cyngor yn cadw golwg ar daclusrwydd amgylchedd y Cyngor

Mae'r Cyngor eisioes wedi colli dau Gynghorydd profiadol yn Anwen Thomas a Richard G Roberts ag yn beryg o golli un arall yn Tudur Anwyl. Bendith felly oedd gallu croesawy Cyng James Griffiths yn ol i'r Cyngor a byddwn yn sicr o elwa o'i brofiad

Mae'r Cyngor yn edrych ymlaen i'r dyfodolac yn ceisio rhagweld materion o bwys ag yn hynny rhaid canmol y cynghorwyr am eu doethineb

'Rydym yn elwa'n fawr o gymorth y Clerc sy'n gweithio yn ddi-flino ar faterion y Cyngor. Rhaid ei lonjgyfarch ar safon ei waith

Mae heriau yn mynd i'r gwynebu yn y flwyddyn nesaf ma

1. Y pwysau ychwanegol arnom wrth i'r Cyngor Sir dynnu'n ol rhai gwasanaethau a chwtogi yr hyn maent yn gyfreithiol gyfrifol amdanynt
2. Rhaid i ni fel Cyngor gydnabod ein gwendidau yn y gorffennol trwy esgeuluso'n sgrwtini ddylem fod wedi ei gyflawni parthed derbyn adroddiadau o'r ddwy ganolfan. Rhydym wedi cael ein rhybuddio am hyn gan ei Cyfreithwyr yn Gamlins
3. Ein sialens yn y misoedd nesaf yma ydi, fel Cyngor, dod i farn ynglyn a'r datblygiad sydd wedi dod ger ein bron fel rhan o brosiect Ysgol Y Faenol a'r Ganolfan. Bydd rhaid pwysu a mesur
  - a. Barn aelodau'r ganolfan
  - b. Manteision ag anfanteision i'r gymuned
  - c. Manteision ag anfanteision i'r Ysgol
  - d. Manteision ag anfanteision i ni fel Cyngor sy'n dal y lés
4. Penderfynu ag arwyddo Lés newydd

#### **4. Ethol Swyddogion**

##### 4.1 – Ethol Cadeirydd

##### 4.2 – Ethol Is-Gadeirydd

Yn unol a'n Rheolau Sefydlog bellach, fabwysiadwyd fis Ebrill, mae disgwyl bellach fod Swyddi y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn swyddi dros gyfnod o ddwy flynedd

Yn sgil hynny cynnigwyd fod y ddau Swyddog Cyng Cynrig E Hughes a Cyng Richard T Jones yn parhau yn ei swyddi am flwyddyn arall

Derbynwyd y cynnig gan y Cyng J A James a chafodd ei eilio gan y Cyng M Baines

Derbynwyd y cynnig yn unfrydol

##### **Derbynodd y ddau eu Swydd**

##### 4.3 – Aelodaeth o'r Is-Bwyllgorau

Cytuniwyd i aelodaeth Is Bwyllgor Cyllid aros fel ag y mae sef Cyng Lowri James (Cad) Cyng Dewi W Jones, Cyng Dafydd Jones-Morris Cyng Jean Pierce a'r Cyng Bernard Jones.

Yn sgil ymddiswyddiad Richard G Roberts oedd yn Gadeirydd yr Is-bwyllgor Asedau mae angen codi Cadeirydd i'r pwyllgor hwnnw.

Cytunwyd pasio'r cyfrifoldeb o ddewis i'r Is-Bwyllgor hwnnw

Byddai'r Cadeirydd yn mynychu y ddau Is-Bwyllgor

Daeth y Cyfarfod Blynnyddol i ben am 8.00

\*\*\*\*\*